

## **CEI LLECHI**

### **Canllawiau ag amodau i darpar denantiaid**

Dim ond mentrau sy'n cyfarfod yr amodau canlynol bydd yn cael cynnig uned yn Cei Llechi :

#### **Amodau Cyffredinol**

1. Bydd rhaid i darpar denantiaid ddangos yn glir eu bod yn creu, gwneud a gwerthu nwyddau sydd am gael eu gwerthu o'r unedau.
2. Bydd rhaid i'r ardal creu a gwneud fod mewn safle canolig o fewn yr uned a bod yn weladwy i unrhyw ymwelydd.
3. Gall y nwyddau canlynol fod yn addas; gemwaith, gwaith coed, metal, gwydr, llechi, bwyd a diod artisan, cerfluniau, crefftau hanesyddol neu nwyddau penodol eraill i'w cytuno arnynt.
4. Ni ystyrir bydd gweithgareddau addysgiadol ag hyfforddi, ohonynt eu hunan, yn ddigon o gyfiawnhad i ganiatau tenantiaeth ond mae'n bosib gall y gweithgareddau hyn fod yn dderbyniol os ydynt cael eu gweithredu yn ychwanegol i weithgareddau eraill sy'n cyfarfod a chanllawiau ag amcanion y safle.
5. Ni ystyrir bydd gweithgareddau manwerthu nag arddangos yn unig yn cyfarfod y canllawiau sylfaenol.
6. Ni ystyrir bod gweithgaredd sy'n cyfuno nwyddau, sydd wedi eu cynhyrchu oddi ar y safle, at eu gilydd yn cyfarfod gyda'r canllawiau sylfaenol.
7. Bydd mentrau sy'n gallu dangos cysylltiad a pherthnasedd clir at ddaearyddiaeth, hanes a diwylliant ardal Caernarfon / Gwynedd yn cael eu hannog. Rhoddir ffafriaeth tuag at geisiadau sydd yn gallu dangos eu bod nhw "o'u lle".
8. Rhaid i ymgeiswyr ddangos sut maent am barchu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn eu gweithgareddau.

#### **Amodau cynaladwyedd ag amgylcheddol**

9. Rhaid i ymgeiswyr fedru dangos sut bydd eu gweithgareddau'n cyfarfod safonau cynnal yr amgylched a chynladwyedd.
10. Rhoddir blaenoriaeth i weithgareddau sy'n gallu dangos eu bod yn defnyddio deunyddiau crai o'r ardal leol.
11. Ni roddir ystyriaeth ffafriol at weithgareddau sy'n defnyddio nwyddau sydd wedi eu mewn forio.

### **Ystyriaethau ar gyfer unedau penodol**

12. Mae'r gefail (Uned 5) wedi ei ddylunio a'i adnewyddu'n benodol i fod ar gael ar gyfer crefftwyr sy'n creu nwyddau metal, gwydr neu llechi sydd yn gofyn am broses cynhyrchu sydd angen gwres. Ni roddir ystyriaeth ffafriol i unrhyw ddefnyddiau eraill yn yr uned hon.
13. Mae caniatad cynllunio ar gyfer defnydd bwyd a diod wedi ei roi ar unedau 6, 7, 14 ag 17 yn unig. Ni annogir mwy o unedau o'r math ar y safle ac mi fydd yn ofynnol ar darpar denantiaid i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar unedau eraill ar gost eu hunan.

### **Newidiadau ar ôl meddiannu uned**

14. Bydd darpar denantiaid sydd wedi camarwain Galeri er mwyn sicrhau tenantiaeth neu a sydd wedi newid eu gweithgareddau'n unfrydol ers meddiannu yn cael eu hystyried wedi torri amodau eu les.